# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Date and Time

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 22AIN MAWRTH, 2016**

Lleoliad

**Parlwr Mawr, Theatr y Ddraig,**
**Ffordd Jubilee, Abermaw, Gwynedd. LL42 1EF**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD: 15/03/16

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| Gethin Glyn Williams | Aelod Lleol Abermaw |
| Louise Hughes | Aelod Lleol Llangelynnin |
| Eryl Jones-Williams | Aelod Lleol Dyffryn Ardudwy |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Mr Mike Ellis | Aelod o Bwyllgor Ras y Tri Copa |
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Cynghorydd R A Williams | Barmouth Resort Improvement Group |
| Cynghorydd Julian Kirkham | Cyngor Cymuned Arthog |
| Dr John Smith | Grwp Mynediad Traphont Abermaw |
| Mrs Wendy Ponsford | Clwb Hwylio Meirionnydd |
| Mr John Johnson | Cymdeithas Pysgofeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion |
| Mr Mark James | Sefydliad y Bad Achub |
| Mr Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw a'r Foryd |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet - Economi |
| Cynghorydd David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Michael Sol Owen | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION 1 - 8

I dderbyn cofnodion cyfarfod blaenorol o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 15 Hydref 205.

## 4. ADRODDIAD GAN Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG 9 - 20

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL 21 - 22

I dderbyn adroddiadau llafar gan y swyddogion perthnasol ar y materion canlynol:

(a) Marciau Mordwyol
(b) Ystyried cael arwyddion i rybuddio y newid yn y dyfnder ger y Clwb Hwylio
(c) Cais i ddosbarthu cofnodion ynghynt er mwyn i gynrychiolwyr fedru briffio’r grwpiau maent yn gynrychioli
(d) Polyn peryglus yng ngwaelod y llithrfa yn Harbwr Aberamffra
(e) Tywod? Beth ellir ei wneud?

## 6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar 8 Tachwedd 2016.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2015 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Julian Kirham (Cyngor Cymuned Arthog), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwylio Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw), Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llŷr B. Jones | - | Uwch Reolwr – Economi a Chymuned |
| Mr Arthur Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr Abermaw |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Louise Hughes, Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet - Economi), Cyng. Rob Williams (BRIG), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Mr Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gethin Glyn Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Croesawyd yr aelodau isod i'r cyfarfod:

- Cyng. R. Triggs ar ran Cyngor Tref Abermaw, fel eilydd i'r Cyng. Lark Davies
- Cyng. Julian Kirkham ar ran Cyngor Cymuned Arthog
- Mr Martin Parouty ar ran Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw.

(b) Mynegwyd dymuniadau gorau'r Pwyllgor am adferiad iechyd buan i'r Cynghorydd Louise Hughes oedd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar.

4. **DATGANIAD O GYSYLLTIAD PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

(i) Cyng. Julian Kirkham – yn perthyn i un o'r gweithredwyr fferi
(ii) Cyng. Gethin Williams – yn aelod o'r Clwb Hwylio
(iii) Cyng. R. Triggs – yn aelod o'r Clwb Hwylio
(iv) Mr Mike Ellis – yn aelod o'r Clwb Hwylio

(v) Mr Martin Parouty – yn aelod o'r Clwb Hwylio ac yn weithredwr masnachol yn yr Harbwr
(vi) Mr John Johnson – gweithredwr masnachol yn yr Harbwr.

5. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2015.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem (F) (i) – Gaeafu Cychod**

(a) Adroddodd yr Harbwr Feistr fod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Rheolwr Parcio a Diogelwch a chadarnhaodd y byddai rhan o'r maes parcio ar gael i aeafu hyd at 10 cwch (uchafswm hyd bob cwch yn 10m). Roedd wedi gofyn am fond am swm o rhwng £300-£500 fel blaen-dâl ar gyfer yr ardal yma. Nodwyd fod angen cadw'r ardal yn lân a'i ffensio. Roedd y contractwr lleol o'r farn fod hyn yn syniad da. Er hynny, i'r trefniant fod yn bosib byddai angen i o leiaf 5 cwch i ddefnyddio'r ardal, o ystyried costau cyffredinol y gwaith ffensio o tua £800. Y farn oedd y byddai'r cyfleuster yn mantoli o ran y buddsoddiad i'r Gwasanaeth Morwrol yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond y gobaith oedd yn byddai'n gwneud elw wedi hynny.
(b) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod am lwybr archwilio i'r cyfleuster arfaethedig, rhoddwyd sicrwydd fod y Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrdd wedi cynnal ymchwiliadau trylwyr gyda asesiadau risg llawn ac roedd yn fodlon nad oedd yr ardal yn cael ei defnyddio ac roedd yn hapus gyda'r trefniadau ac roedd e-byst ar gael i gadarnhau'r trafodaethau.
(c) Pwysleisiodd yr Uwch Swyddog Harbyrau mai cyfleuter posib ydoedd ar hyn o bryd ac roedd angen rhagor o drafodaethau, ond roedd hi'n bwysig sylweddoli y byddai unrhyw gwch fyddai'n cael ei adael ar y maes parcio yn gyfrifoldeb cyfan gwbl i'r perchennog.
(d) Nododd yr Uwch Swyddog – Economi a Chymuned y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r cyfleuster ar gael erbyn Chwefror. Cyn gynted ag y byddent yn gwybod faint oedd â diddordeb i ddefnyddio'r cyfleuster yna gellid dechrau ar y gwaith paratoi.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**Eitem 5 (ii) – Mynediad i Gadeiriau Olwyn ar y Promenâd**

(a) Nodwyd fod y mater uchod wedi ei godi gan y Cyng. Eryl Jones-Williams a dywedodd ei fod yn aelod o Grŵp Mynediad Meirionnydd ac roedd yn deall fod swydd y Swyddog Anabledd yng Nghyngor Gwynedd wedi diflannu a bod y dyletswyddau yn cael ei rhannu gan swyddog arall. Y broblem gyda mynediad i gadeiriau olwyn ar y promenâd oedd mai dim ond mewn man penodol i gellid cael mynediad a gadael y prom. Holodd yr aelod a fedrai Grŵp Mynediad Meirionnydd gyflwyno cais unigol i Gronfa'r Loteri.
(b) Yn ei ateb, dywedodd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned i gael mynediad ychwanegol i'r Promenâd byddai'n golygu gwaith peirianyddol sylweddol. Er hynny, pe byddai Grŵp Mynediad Meirionnydd yn cyflwyno cais am arian fe fyddai ef (neu'r Swyddog Adfywio) yn fwy na bodlon i drafod y ffordd ymlaen gyda'r Grŵp.
(c) Awgrymwyd ymhellach, gan Gadeirydd y Pwyllgor, y byddai Cyngor y Dref hefyd efallai eisiau trafod y posibilrwydd o sefydlu Grŵp Mynediad Abermaw mewn ymgynghoriad gyda Grŵp Mynediad Meirionnydd i drafod y ffordd ymlaen gyda unrhyw geisiadau grant ac ati.

**Penderfynwyd: (i) Bod y Cyng. Eryl Jones-Williams yn trafod y posibilrwydd o Grŵp Mynediad Meirionnydd yn cyflwyno cais i Gronfa'r Loteri ac wedi hynny gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.**

**(ii) Bod aelodau'r Cyngor Tref oedd yn y cyfarfod yn codi'r mater yng ngyfarfod nesaf y Cyngor Tref am y posibilrwydd o sefydlu Grŵp Mynediad Abermaw.**

6. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG**

**Cyflwynwyd:** I aelodau yn ystod y cyfarfod, adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar weithgareddau yn Harbwr Abermaw.

Darllenodd yr Uwch Swyddog Harbyrau yr adroddiad i'r aelodau a gwnaed cyfeiriad penodol i'r isod:

(a) Cofrestru Cychod Pŵer

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod am gofrestru'r holl gychod drwy drefniadau gwahanol, adroddwyd fod mwyafrif y cofrestriadau o safleoedd carafanau wedi eu cyfeirio at Swyddfa'r Harbwr Feistr ac roedd yr asesiadau risg yn cael eu cynnal gan yr Harbwr Fesitr a'u hadolygu gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a /neu Uwch Swyddog Harbyrau. Rhoddwyd sicrwydd fod popeth mewn llaw.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(b) Mordwyo

Adroddwyd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r cymhorthion mordwyo ar ôl yr oedi pan roedd y contractwr lleol i ffwrdd. Roedd dau fwi newydd yn y broses o gael eu prynu yn ogystal â goleuadau newydd, a sicrhawyd fod y Gwasanaeth Morwrol yn awyddus i gael y cymhorthion mordwyo i'r safon gorau gan eu bod yn flaenoriaeth o ran iechyd a diogelwch. Dywedodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ei fod yn gobeithio y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau cyn pen y 2/3 wythnos nesaf. Nodwyd ymhellach fod y bwi bar yn agored i ryferthwy'r tywydd ac roedd y Gwasanaeth Morwrol mewn trafodaethau gyda Hydrosphere i gael math addas.

Gofynnodd cynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw pam fod y cymhorthion mordwyo wedi eu hamwybyddu am gymaint o amser. Atebodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ers iddo fod yn ei swydd ym mis Chwefror nid oedd yn ymwybodol eu bod wedi eu diystyru. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Grŵp Defnyddwyr yr Harbwr yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn wedi llongyfarch y Gwasanaeth Morwrol am safon y cymhorthion mordwyo.

Dywedodd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned nad oedd unrhyw ateb hawdd ynglŷn â esgeuluso'r cymhorthion mordwyo, ond roedd yna nifer o ffactorau cysylltiedig. Roedd Tŷ'r Drindod yn archwilio holl gymhorthion mordwyo'r harbwr ac o ran Harbwr Abermaw roedd gwersi i'w dysgu a hyderir y bydd y rhain yn cael eu cywiro yn y dyfodol agos.

O safbwynt y goleuadau ar y bwiau oedd mewn cyflwr gwael, ac yn arbennig dydd Sadwrn diwethaf (10.10.15), dywedodd yr Harbwr Feistr fod y cymhorthion mordwyo wedi dod i'r lan i'w trwsio a chyflwynwyd Rhybudd i Forwyr ynglŷn â hyn (dosbarthwyd copi o'r rhybudd er gwybodaeth yn ystod y cyfarfod). O ran bwi'r sianel fordwyo, roedd y golau wedi cael ei godi i'r uchafswm ac roedd golau newydd wedi ei archebu i'r bwi bar a sicrhawyd y byddai'r goleuadau mordwyo yn gweithio cyn gynted â phosib.

Nodwyd ymhellach fod sianel gyda bwiau da yn arbennig o bwysig yn enwedig i annog mwy o bobl i ymweld â'r Harbwr.

Derbyniodd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned y sylwadau a wnaed ac erfyniwyd ar aelodau'r pwyllgor a defnyddwyr i gysylltu â'r Harbwr Feistr os oedd ganddynt unrhyw bryderon am y cymhorthion mordwyo.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(c) Rhaglen Waith

Rhestrodd yr Uwch Swyddog Harbyrau y gwaith oedd ar raglen waith Harbwr Abermaw yn ystod y tri mis nesaf, oedd yn cynnwys yr isod:

- Tynnu bysedd y pontŵn
- Archwilio a chynnal a chadw y rhan sy'n weddill o'r pontŵn
- Ysgol y Glwyd
- Cynnal a chadw ac ail-wampio'r bwiau
- Glanhau'r lloc
- Cynnal a chadw'r hysbysfyrddau
- Cynnal a chadw meinciau
- Glanhau ac atgyweirio clwyd y morglawdd
- Cynnal a chadw'r ffensio ar wal yr harbwr
- Cynnal a chadw'r promenâd
- Cynnal a chadw rheslau'r dingis

Cadarnhaodd yr Harbwr Feistr ei fod wedi ymgymryd â gwaith i risiau'r Fferi.

Cafwyd y sylwadau isod gan yr aelodau:

(i) Bydd y rhesel i'r dingis yn welliant mawr
(ii) O ran y meinciau, nodwyd fod Cyngor Tref Abermaw yn berchen ar, ac yn gyfrifol am rai ohonynt ac y dylid sicrhau pwy oedd yn berchen ar beth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(d) Cyllidebau

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Harbyrau daenlen o'r gyllideb a thywyswyd yr aelodau drwy'r wybodaeth a nodwyd fod tanwariant o £5,946. I ateb ymholiad am ddibrisiant o £11,900, dywedodd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned fod hyn yn ffurf o gyllideb gryno oedd yn cyfeirio at asedau ac adeiladau ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac nid oedd yn effeithio ar gyllideb Harbwr Abermaw.

I ateb ymholiad o ran cyllideb o £3,000 ar lyfrau gweinyddol, cadarnhawyd fod hyn yn cyfeirio at y llyfrau log, llyfrau archebu ac ati ond byddai ymholiadau pellach yn cael eu gwneud gan yr Uwch Swyddog Harbyrau am hyn.

Oherwydd y ffaith fod dwy daenlen ar wahân i'r gyllideb, gofynnwyd yn garedig mai dim ond un a gyflwynir yn y dyfodol i osgoi penbleth i'r aelodau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn taenlen y gyllideb yn amodol i wneud ymholiadau pellach i gyfeirnod 3250 – llyfrau gweinyddol.**

**(b) Gofyn i'r Gwasanaeth Morwrol i gyflwyno un daenlen cyllideb yn y dyfodol er mwyn ei gwneud hi'n haws i aelodau gyfeirio ati.**

(e) Staff

Cadarnhawyd y bydd Dafydd Rhun Thomas wedi ei leoli ym Mhorthmadog tan 31 Rhagfyr 2015 a bydd yn gweithio yn Abermaw, Aberdyfi a Hafan, Pwllheli, fel bo'r angen.

O safbwynt bod Dafydd Rhun Thomas ar ddyletswydd yn Abermaw yn ystod dyddiau gwyliau blynyddol yr Harbwr Feistr, dywedodd yr Uwch Swyddog Harbyrau y byddai'r mater yma yn cael ei gyfeirio i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i wneud penderfyniad. Cadarnhawyd ymhellach y byddai aelod o staff ar ddyletswydd o'r 1af Ebrill i Hydref yn yr harbwr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(f) Digwyddiadau

Cyfeiriwyd ar y digwyddiadau oedd wedi eu trefnu yn ystod 2015 oedd yn cynnwys:

- Ras y Tri Chopa
- Digwyddiadau rhwyfo "Paddlesports" Abermaw
- Digwyddiad "Motorcross" Abermaw
- Digwyddiadau hyfforddi Clwb Hwylio Abermaw i hwylio dingis

Gofynnwyd i'r aelodau os oeddent yn gwybod am unrhyw ddigwyddiadau iddynt adael i'r Uwch Swyddog Harbyrau neu Harbwr Feistr i wybod fel bod modd gwneud trefniadau paratoi o ran asesiadau risg, staff ac ati.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(g) Cod Diogelwch yr Harbwr – Ymgynghoriad Cenedlaethol

Adroddwyd fod dogfen yr Ymgynghoriad Cenedlaethol ar God Diogelwch yr Harbwr mewn ffurf drafft a chytunwyd i anfon copi pdf electronig i bob aelod (gofynnwyd i'r aelodau i ddarparu eu cyfeiriadau e-bost ar restr a ddosbarthwyd yn ystod y cyfarfod).

**Penderfynwyd: Bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn anfon copi o God Diogelwch yr Harbwr i bob aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a ddarparodd gyfeiriad e-bost yn y cyfarfod.**

(h) Darpariaeth Disel Coch

Gofynnodd yr Uwch Swyddog Harbyrau am adborth gan gwsmeriaid os oeddent wedi profi unrhyw wahaniaeth yn ansawdd y disel coch a ddarparwyd.

Awgrymwyd ymhellach y gallai'r Harbwr Feistr efallai anfon neges e-bost i'r holl gwsmeriaid i ofyn am eu barn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Ffioedd 2016

Nodwyd y byddai cynnydd o 1% yn y ffioedd a thaliadau am 2016/17.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol codwyd y materion a ganlyn:

(a) Mewn ymateb i'r pryder oherwydd colli incwm i'r Harbyrau, dywedodd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned fod yn rhaid i bob harbwr unigol fod yn gynaliadwy o ran incwm. Er hynny, roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r hinsawdd ariannol ac roedd y Gwasanaeth Morwrol yn ceisio annog ac adfer gweithgareddau ar hyd yr arfordir. Yr unig harbwr oedd yn gwneud elw oedd Hafan, Pwllheli.

(b) Roedd aelod o'r farn pe byddai'r Cyngor yn buddsoddi yn yr Harbwr byddai'n golygu newid enfawr i dref Abermaw ac roedd angen denu mwy o gychod i ymweld â'r Harbwr.

(c) I ateb yr uchod, dywedodd yr Harbwr Feistr nad oedd y gwasanaeth yn troi unrhyw un i lawr o ran angorfeydd ac aeth ymlaen i esbonio'r drefn gyda chyflwyno angorfeydd oedd yn eiddo i'r Cyngor o'i gymharu ag angorfeydd mewn perchnogaeth breifat. Er hynny, fel awdurdod roedd gweithdrefnau iechyd a diogelwch yr oedd yn rhaid glynu atynt a'u blaenoriaethu.

(d) Gofynnwyd a fedrai'r Uwch Swyddog Harbyrau ymchwilio i'r posibilrwydd o lunio cynllun busnes i'w gyflwyno i Benaethiaid Adrannau am angorfeydd ychwanegol.

(e) Yn ei ateb dywedodd yr Uwch Swyddog Harbyrau fod yr agwedd iechyd a diogelwch yn bwysig ac roedd o'r farn fod angen edrych ar y darlun ehangach yn hytrach na chynyddu'r angorfeydd, a denu mwy o bobl i ddigwyddiadau.

(f) Pwysleisiwyd fod angen rhoi gwasanaeth blynyddol i angorfeydd yr harbwr. Oherwydd anghysondebau rhwng angorfeydd oedd yn eiddo i'r Cyngor ac angorfeydd preifat, gofynnwyd i'r Harbwr Feistr lunio cynllun o bob angorfa yn yr Harbwr er mwyn gwella gweithdrefnau iechyd a diogelwch. Aeth yr Uwch Swyddog Harbyrau ymlaen i ddweud ei fod ef mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, yn y broses o edrych ar y prosesau o ran 'caniatâd i osod' ble na fedrai neb osod angorfa heb y gwaith papur angenrheidiol a chaniatâd yr Harbwr Feistr. Roedd hefyd angen archwiliad blynyddol o'r angorfeydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r agweddau iechyd a diogelwch ac roedd angen codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid ynglŷn â pha ofynion oedd eu hangen. Gofynnodd y Cadeirydd fod adroddiad pellach ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Harbwr ym Mawrth 2016, ynghyd â rhestr o angorfeydd y Cyngor mewn harbyrau eraill yng Ngwynedd er cymhariaeth.

(g) I ateb y cwestiwn ynglŷn â fyddai'r Gwasanaeth Harbwr yn cael symud cwch, dywedodd yr Harbwr Feistr y gellid symud cychod pe byddai'r gwaith papur priodol o ran archwiliadau, yswiriant ac ati heb eu cyflwyno.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn cyflwyno adroddiad cynnydd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ym Mawrth 2016, fel yr amlinellwyd yn (f) uchod.**

## 7. MATERION A YSTYRIWYD AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

(a) **Lansio o Bwynt Penrhyn – statws yswiriant. Sut mae hyn yn cael ei fonitro?**

Diolchodd y Cyng Julian Kirkham, ar ran Cyngor Cymuned Arthog, i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am ddatrys y problemau ym Mhwynt Penrhyn o ran biniau sbwriel, arwyddion ac ati. Er hynny, roedd pryder o hyd gyda lansio o Bwynt Penrhyn ac yn enwedig felly heb yswiriant. Gofynnwyd a fyddai'r cwch patrol yn cadw golwg yn fwy aml ar hyn.

**Penderfynwyd: Cytunodd yr Uwch Swyddog Harbyrau i drafod y mater ymhellach gyda'r Harbwr Feistr o ran mwy o ymweliadau â Phwynt Penrhyn.**

(b) **Dyddodiad a chasgliad tywod a chael gwared ohono**

Roedd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned yn ymwybodol o'r pryder am dywod yn casglu yn arbennig ar y sarn. Roedd yn wir dweud fod nifer o gwynion wedi eu derbyn yn ystod yr haf a bod y Gwasanaeth Morwrol wedi ymdrechu i ddelio gyda'r sefyllfa ond roedd hon yn broses naturiol. Trefnwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd y Pwyllgor hwn, Prif Wethredwr yr Awdurdod ac Ymgynghoriaeth Gwynedd ac fe gydnabuwyd fod yna broblem ond nad oedd yn hawdd ei datrys. Yn y cyfarfod cytunodd Ymgynghoriaeth Gwynedd i ymchwilio i'r dewisiadau oedd ar gael yn y tymor hir. Roedd Cyngor Tref Abermaw hefyd wedi nodi pryder am y mater ac roedd safle cyfarfod wedi ei drefnu gyda chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru oedd hefyd o blaid ymchwilio i'r dewisiadau tymor hir. Hyderir y cynhelir cyfarfodydd lleol eraill er mwyn ceisio'r farn leol.

**Penderfynwyd: Nodi a derbyn yr uchod.**

(c) **Pontŵn**

Mynegodd Grŵp Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw ddiolch i'r Cyngor am atgyweirio'r pontŵn, ased gwerthfawr i'r harbwr oedd yn gwella ei apêl fel cyrchfan i gychod oedd yn ymweld.

Dywedodd Uwch Swyddog yr Harbyrau fod ychydig o faterion oedd angen eu cywiro o ran cynnal a chadw a gorfodaeth ac ati.

(d) **Cau Pont Abermaw i gerddwyr**

**Penderfynwyd: Y dylai'r mater yma gael ei gyfeirio i ymgynghoriad Her Gwynedd ynglŷn â pharhau i dalu ffi i Network Rail i ganiatáu i gerddwyr, beicwyr a rhai ar feic modur i ddefnyddio pontdroed Abermaw.**

8. **<u>UNRHYW FATER ARALL</u>**

**<u>Plac Coffa 50 mlynedd – Cwch Fferi y 'Prince of Wales'</u>**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at erthygl yn y papur lleol am alwadau i gael plac coffa i gofio am ddamwain angheuol fferi y 'Prince of Wales' a darodd doll-bont Llyn Penmaen hanner cantrif yn ôl ar 22 Gorffennaf 1966.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, roedd aelodau o'r farn fod y mater yma wedi ei gyfeirio i Gynghorau Tref Abermaw a Dolgellau. Cefnogodd aelodau Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr y cais ond o ran y drefn awgrymwyd y dylid ei gyfeirio at Gadeiryddion Cynghorau Tref Abermaw a Dolgellau am ystyriaeth pellach. Cytunodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw i drafod y cais gyda'r ddau Gyngor Tref uchod.

**Penderfynwyd: Bod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn cefnogi gosod plac coffa er cof am y rhai foddodd ar Gwch Fferi y 'Prince of Wales', ond o ran trefn fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr yn ymgynghori gyda Chadeiryddion Cynghorau Tref Abermaw a Dolgellau i drafod y ffordd ymlaen.**

9. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd: Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar 22 Mawrth 2016.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.55 p.m.**

**CADEIRYDD.**

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*
# *Harbour Consultative Committee*

***22 Mawrth / March 2016***

***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.***

***Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.***

1. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

   - Derbyn sylwadau Aelodau ar y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive observations of Members on the Port Marine Safety Code.

   - Materion yn codi ynglyn a Cod Diogelwch Harbwr / Matters arising relevant to the Port Marine Safety Code

2. ***Mordwyo ac Angorfeydd - Navigation and Moorings***

   - Cymhorthion Mordwyo. Buddsodiad 2016 / Aids to Navigation. Investment 2016
   - Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
   - Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
   - Cynnal a lleoliad Angorfeydd 2016 / 2016 Mooring Maintenance and positions

3. ***Materion Harbwr - Harbour Issues***

   - Cynnal a Chadw Pontwn – Pontoon maintenance
   - Cynnal a chadw ardal wyneb y cei – Quay area surface maintenance
   - Ysgraff Teithwyr 2016 Passanger Ferry
   - Consesiynnau Traethau - Beach Concessions
   - Rheoli Tywyd Lan Mor a phromenad – Beach and promenade Sand Management

4. ***Cyllidebau Harbyrau - Harbour Budgets***

   - Targedau Cyllideb Cyfredol 2015-16 / 2015-16 Budget Targets
   - Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
   - Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
   - Ffioedd a Thaliadau 2016 Fees and Charges

5. ***Staff Harbwr - Harbour Staff***

   - Trefniadau staff Gwanwyn/Haf 2016 – Spring/Summer Staff Arrangements 2016
   - Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

6. ***Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales Consultation***
   - Copi ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ynglwm – Copy of Natural Resources Wales consultation document enclosed

7. ***Gwasanaeth Cofio - Memorial Service***
   - Trychineb Ysgraff 22 Mehefin 1966– for Abermaw Ferry Tradgedy 22 June 1966

## Morwrol a Pharciau

**DG54-Abermaw** | **Diwedd Chwefror 2016**

| Grwp | Cyfrif | Disgrifiad | Cyllideb 2 | Addasiad | Cyllideb 1 | Gwariant | Gweddill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 5716 | Costau Staff | 48,460 | 0 | 48,460 | 39,163.09 | -9,296.91 |
| | | | | | | | |
| Eiddo | 1000 | Cynnal a Chadw | 5,280 | 0 | 5,280 | 10,364.82 | 5,084.82 |
| | | | | | | | |
| Trafnidiaeth | 2100 | Trafnidiaeth | 770 | 0 | 770 | 99.90 | -670.10 |
| | | | | | | | |
| Cyflenwadau | 3100 | Offer a Chelfi | 9,560 | 460 | 10,020 | 15,927.45 | 5,907.45 |
| | | | | | | | |
| Cyfanswm Gwariant | | Gwariant | 64,070 | 460 | 64,530 | 65,555.26 | 1,025.26 |
| | | | | | | | |
| Incwm | 7890 | Llyfrynnau & Chofroddion | -1,970 | 0 | -1,970 | 0.00 | 1,970.00 |
| | 7983 | Gwerthu-Petrol/Diesel | -1,460 | 0 | -1,460 | 224.71 | 1,684.71 |
| | 7990 | Gwerthu- Hen Gyfarpar | 0 | 0 | 0 | -60.00 | -60.00 |
| | 7994 | Gwerthu - Tocynnau Trydan | -40 | 0 | -40 | 0.00 | 40.00 |
| | 8061 | Cofrestru Cwch Pwer | 0 | 0 | 0 | -66.30 | -66.30 |
| | 8231 | Angorfeydd Parhaol | -25,760 | 0 | -25,760 | -23,439.62 | 2,320.38 |
| | 8232 | Angorfeydd I Ymwelwyr | -1,270 | 0 | -1,270 | -1,559.57 | -289.57 |
| | 8233 | Tollau Harbwr | -2,540 | 0 | -2,540 | -0.01 | 2,539.99 |
| | 8234 | Lansio Cwch Power | -4,120 | 0 | -4,120 | -883.32 | 3,236.68 |
| | 8235 | Ffioedd Gaeafu | -2,630 | 0 | -2,630 | -7,632.07 | -5,002.07 |
| | 8237 | Lansio Jet Ski | 0 | 0 | 0 | -60.82 | -60.82 |
| | 8264 | Gwarged/Diffyg | 0 | 0 | 0 | -3.29 | -3.29 |
| | 8462 | Trwydded-Amrywiol | 0 | 0 | 0 | -489.60 | -489.60 |
| | 8690 | Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff. | -5,310 | 0 | -5,310 | -920.00 | 4,390.00 |
| | 9681 | Cyfraniad O Reserfau Penod( | 0 | 0 | 0 | -8,747.80 | -8,747.80 |
| | | Incwm | -45,100 | 0 | -45,100 | -43,637.69 | 1,462.31 |
| | | | | | | | |
| Cyfanswm | | Cyfanswm | 18970 | 460 | 19,430 | 21,917.57 | 2,487.57 |

## Morwrol a Pharciau

### DG55-Aberdyfi — Diwedd Chwefror 2016

| Grwp | Cyfrif | Disgrifiad | Cyllideb 2 | Addasiad | Cyllideb 1 | Gwariant | Gweddill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | 5716 | Costau Staff | **51,210** | **0** | **51,210** | **37,265.94** | **-13,944.06** |
| | | | | | | | |
| **Eiddo** | 1000 | Cynnal a Chadw | **18,400** | **0** | **18,400** | **5,010.19** | **-13,389.81** |
| | | | | | | | |
| **Trafnidiaeth** | 2100 | Trafnidiaeth | **620** | **0** | **620** | **412.52** | **-207.48** |
| | | | | | | | |
| **Cyflenwadau** | 3100 | Offer a Chelfi | **7,980** | **480** | **8,460** | **13,394.94** | **4,934.94** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | | Gwariant | **78,210** | **480** | **78,690** | **56,083.59** | **-22,606.41** |
| | | | | | | | |
| **Incwm** | 7983 | Gwerthu-Petrol/Diesel | 0 | 0 | 0 | 51.12 | 51.12 |
| | 8231 | Angorfeydd Parhaol | -17,570 | 0 | -17,570 | -17,275.92 | 294.08 |
| | 8232 | Angorfeydd i Ymwelwyr | -2,350 | 0 | -2,350 | -493.33 | 1,856.67 |
| | 8233 | Tollau Harbwr | -3,500 | 0 | -3,500 | 0.00 | 3,500.00 |
| | 8234 | Lansio Cwch Power | -8,050 | 0 | -8,050 | -1,241.66 | 6,808.34 |
| | 8235 | Ffioedd Gaeafu | -870 | 0 | -870 | -560.00 | 310.00 |
| | 8237 | Lansio Jet Ski | 0 | 0 | 0 | -816.66 | -816.66 |
| | 8320 | Cynlluniau Pridiannau Tir | 0 | 0 | 0 | -360.00 | -360.00 |
| | 8690 | Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff. | -890 | 0 | -890 | -4,330.00 | -3,440.00 |
| | | **Incwm** | **-33,230** | **0** | **-33,230** | **-25,026.45** | **8,203.55** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | **Cyfanswm** | **44,980** | **480** | **45,460** | **31,057** | **-14,403** |

## *Harbwr Abermaw Harbour*
## *2016/17*

| **Eithrio T.A.W** | | **2015-16** 1% | | **2016-17** 1% | **Prices exclude V.A.T** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr – Pob Cwch Pleser | **-** | **27.74** | **-** | **28.02** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues – All Pleasure Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob cwch | **-** | **5.00** | **-** | **5.05** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| Trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith | **-** | **N/A** | **-** | **25.47** | Trwyn y Gwaith Mooring License |
| | | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | - | **Fel rhestr lansio** | - | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain, peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | **-**<br>**-**<br>**-** | **-**<br>**5.89**<br>**46.29** | **-**<br>**-**<br>**-** | **-**<br>**8.33**<br>**50.00** | **Small boats engine, max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| **Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod** | | | | | **Visiting Vessels – Daily or part of day** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | **-** | **5.00** | **-** | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | **-** | **6.67** | **-** | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | **-** | **24.02** | **-** | **24.26** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | | |
| Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr y fedr | **-** | **24.02** | **-** | **24.26** | Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter |
| Cychod yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | **-** | **53.59** | **-** | **54.17** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | | |
| Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Pysgotwyr llawn amser<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol harbwr<br>Ffioedd Compownd Harbwr (y flwyddyn) – Defnyddwyr masnachol eraill<br>Ffi cosb – Glanhau Ysbwriel<br>Gordal-defnydd tir tu allan i'r ardal benodedig y M² yr wythnos. | -<br>-<br>-<br>-<br>- | **291.20**<br>**313.76**<br>**362.53**<br>**92.12**<br>**4.20** | -<br>-<br>-<br>-<br>- | **294.11**<br>**316.87**<br>**366.16**<br>**93.04**<br>**4.24** | Harbour compound (per annum) – Full time fishermen<br>Harbour Compound (per annum) – Harbour commercial users<br>Harbour Compound (per annum) – Other commercial users.<br>Penalty Costs – Removal of refuse/<br>Surcharge – additional storage area outside of allocated plot - per M² per week. |
| | | | | | |
| Storio tymor yr haf ar diroedd harbwr y fedr. Ffi fesul wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi<br>Storio tymor y gaeaf ar dir yr harbwr y fedr. Ffi fesul y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm 7 medr | -<br><br>- | **5.49**<br><br>**5.54** | -<br><br>- | **5.60**<br><br>**5.60** | Summer Storage on harbour land per meter per week or part of week 01 April – 30 September<br>Winter Storage on harbour land per metre per month or any part of month 01 October – 31 March – min 7mtrs |
| Rhent llogi angorfa Abermaw | - | **246.92** | - | **249.39** | Mooring Rental Abermaw |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | Cancellation of mooring application. Discretionary |

***Harbwr Aberdyfi Harbour***
***2016/17***

| **Eithrio T.A.W** | | **2015-16**<br><br>**1%** | | **2016-17**<br><br>**1%** | **Prices exclude V.A.T** |
|---|---|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Cychod Pleser | - | **27.74** | - | **28.02** | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. Pleasure Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob llestr | - | **5.00** | - | **5.05** | Harbour Dues per meter – all vessels |
| | | | | | |
| **Taliadau llithrfa cychod pŵer dros 10HP (eithrio BDP)** | - | **Fel rhestr lansio** | - | **Fel rhestr lansio** | **Slipway charges power boats over 10HP (not PW)** |
| **Cychod bychain peiriant 10HP**<br>Dyddiol<br>Tymhorol | -<br>-<br>- | **-**<br>**5.89**<br>**46.29** | -<br>-<br>- | **-**<br>**8.33**<br>**50.00** | **Small boats engine max 10HP**<br>Daily<br>Seasonal |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | - | **5.00** | - | **5.00** | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | - | **6.67** | - | **8.33** | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr **y fedr** + Tollau Harbwr | - | **24.02** | - | **24.26** | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | - | **24.02** | - | **24.26** | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | - | **53.59** | - | **54.17** | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | | | |
| Storio tymor yr haf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr yr wythnos neu rhan wythnos 01 Ebrill – 30 Medi**<br>Storio tymor y gaeaf yn ardal y Cei neu diroedd eraill **y fedr y mis neu unrhyw rhan o fis 01 Hydref – 31 Mawrth – isafswm ffi 7 medr** | -<br><br>- | **5.49**<br><br>**3.45** | -<br><br>- | **5.54**<br><br>**3.48** | Summer Storage on Quay or other land **per meter per week or part of week 01 April – 30 September**<br>Winter Storage on Quay or other land **per metre per month or any part of month - 01 October – 31 March – min charge 7 meters.** |
| Rhent Llogi Angorfa Aberdyfi | - | **246.92** | - | **249.39** | Mooring Rental Aberdyfi |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa | Gwelir isod | See below | Gwelir isod | See below | Cancellation of mooring application |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rheol 1/18 | Rule 1/18 | Rheol 1/18 | Rule 1/18 | Cancellation of mooring application. Discretionary. |

**Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit**

***FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES***

| Prisiau Eithrio TAW | 2014-15 | 2015-16 (2.0%) | 2016-17 (2.0%) | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Rhaff cysylltiol a bwi codi | **25.00** | **Diddymu** | **Diddymu** | Link line and pickup buoy |
| | | | | |
| Gosod rhaffau angorfeydd | **35.00** | **Diddymu** | **Diddymu** | Fitting of mooring lines |
| | | | | |
| Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr) | **39.27** | **40.06** | **40.86** | Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel) |
| | | | | |
| Trwydded Cychwyr - Pwer {Dim TAW} | **55.00** | **56.10** | **57.22** | Boatman's Licence - Power { No VAT } |
| Trwydded Perchennog - Pwer {Dim TAW} | **65.00** | **66.30** | **67.63** | Proprietor's Licence - Power { No VAT } |
| | | | | |

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2016 – 31/03/2017**

**Eithrio TAW / Exclusive of VAT**

| **Ffi Adnewyddiad** (Trwyddedau Bach) | **2016/17** | **Renewal Fees** (Small Permits) |
|---|---|---|
| **Ail-cofrestru Blynyddol** | £25.00 | **Annual Re-registration** |
| **Ceisiadau Llestr Newydd** (Trwyddedau Mawr a Bach) | | **New Vessel Applications** (Large and Small Permits) |
| **Cofrestru Blynyddol** | £33.33 | **Annual Registration** |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| **Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol**<br>**Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)** | £8.33<br>£10.83 | **Daily launch – General Slipways/Beaches**<br>**Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)** |
| **Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)**<br>**Cynnwys Ffi Cofrestru** | £116.67 | **Annual Launching Permits (1 April – 31 March)**<br>**Inclusive of Registration Fee** |
| **Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.**<br>**In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.** | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| **Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli** | £33.33 | **Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli** |
| **Cychod llai na 10 HP** | | **Vessels under 10 HP** |
| **Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig**<br><br>**Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio** | £20.83 | **Annual Registration Fee – In Person Application Only**<br><br>**At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection** |

## Chwyddiant ar Incwm 2016-17 - Cyllideb Rhan 1

| | Gwariant | Gwariant | Chwyddiant Gwariant | Gwariant Terf | Gwahaniaeth mewn £ | Gwahaniaeth mewn % | Cynnydd £ Targed | Targed Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | % | £ | £ |
| **Hafan** | 573,760 | 576,800 | 3,800 | 580,600 | 6,840 | **1.19%** | -15,610 | -1,331,600 |
| **Traethau** | 359,260 | 358,940 | 2,600 | 361,540 | 2,280 | **0.63%** | -1,320 | -209,950 |
| **Cyfanswm Harbyrau** | 273,070 | 272,780 | 2,210 | 274,990 | 1,920 | **0.70%** | -1,480 | -239,640 |
| **Doc Fic** | 139,060 | 138,500 | 750 | 139,250 | 190 | **0.14%** | -290 | -217,380 |
| **Padarn** | 165,260 | 165,510 | 570 | 166,080 | 820 | **0.50%** | -790 | -155,780 |
| **Glynllifon** | 70,160 | 70,460 | 620 | 71,080 | 920 | **1.31%** | -760 | -64,370 |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Protected Sites Team / Tîm Safleoedd Gwarchodedig
Maes y Ffynnon
Bangor
LL57 2DW
Ebost/Email:
morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 0300 065 3000

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
ADRAN ECONOMI A CHYMUNED
25 JAN 2016
UNED MORWROL A PARCIAU GWLEDIG
RHIF TRACIO

19 Ionawr 2016

Annwyl Syr/Fadam

**YMGYNGHORIAD AR ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG ARFAETHEDIG AR GYFER LLAMHIDYDDION YR HARBWR AC ARDALOEDD GWARCHODAETH ARBENNIG ARFAETHEDIG NEWYDD AC ESTYNEDIG AR GYFER ADAR Y MÔR**

Mae nifer o ardaloedd môr o amgylch Cymru dan ystyriaeth fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) arfaethedig ar gyfer nifer o rywogaethau o adar y môr.

Ardaloedd o dir neu fôr yw ACA ac AGA y nodwyd eu bod o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. O dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE 1992, a Chyfarwyddeb Adar Gwyllt yr UE 2009, mae'n ofynnol i bob aelod-wladwriaeth UE ddynodi ACA ac AGA a rhoi mesurau ar waith i sicrhau cadwraeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau mae'r safleoedd wedi'i dynodi ar eu cyfer.

Fel rhywun a allai fod â diddordeb yn yr ardaloedd dan sylw, rydym yn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad trwy ddweud eich barn wrthym. Rydym yn ymgynghori ar chwe chynigiad:

- ACA bosibl North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol;
- ACA bosibl West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol;
- ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren;
- AGA arfaethedig Angelsey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn (estyniad arfaethedig i AGA Ynys Feurig, Cemlyn Bay and The Skerries sydd eisoes yn bodoli);
- AGA arfaethedig Northern Cardigan Bay /Gogledd Bae Ceredigion.
- AGA arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro (estyniad arfaethedig i AGA Skokholm and Skomer sydd eisoes yn bodoli).

Mae manylion llawn pob un o'r cynigion hyn ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k. Ar ddiwedd y llythyr hwn, ceir map crynodeb sy'n dangos lleoliad yr ardaloedd.

Ymhlith y wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan mae papur ymgynghoriad sy'n esbonio'n llawn ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad a sut i ymateb iddo, a mapiau manwl o ffiniau pob safle arfaethedig. Rydym hefyd wedi manylu ar y rhesymau pam ein bod yn ystyried bod yr ardaloedd hyn yn gymwys i'w dynodi fel ACA a AGA, ac rydym wedi darparu rhai

cwestiynau ac atebion ac amrywiaeth o wybodaeth dechnegol gefnogol arall, gan gynnwys amcanion cadwraeth drafft ar gyfer y safleoedd ac asesiadau o'u heffaith reoliadol bosibl.

Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu a ddylid dynodi ACA a AGA yng Nghymru a dyfroedd glannau Cymru, a hyd yma ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau o'r fath mewn perthynas â'r safleoedd hyn. Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru a byddwn yn adrodd iddynt ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried holl ymatebion yr ymgynghoriad a dderbyniwyd, ond sylwch dim ond ystyriaethau gwyddonol perthnasol y gall Gweinidogion eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dynodi ACA ac AGA ai peidio. Gall gwybodaeth a barn ar ystyriaethau economaidd a chymdeithasol helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol am sut ddylid rheoli'r ardaloedd, ond ni allant ddylanwadu ar benderfyniadau o ran dynodi ACA ac AGA neu bennu eu ffiniau.

Mae rhai o'r safleoedd hyn yn gorwedd yn rhannol yn nyfroedd tiriogaethol Cymru ac yn rhannol yn nyfroedd alltraeth y DU y tu hwnt i'r terfyn Môr Tiriogaethol 12 môr-filltir. Llywodraeth y DU a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU (JNCC) sydd yn gyfrifol am safleoedd yn nyfroedd alltraeth y DU. Mae CNC a JNCC yn cyd-weithio ar y safleoedd hyn, ac felly adroddir ar yr ymgynghoriad ar y cyd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Efallai y byddwch hefyd yn derbyn gohebiaeth oddi wrth y JNCC ynglŷn ag ardaloedd arfaethedig eraill yn nyfroedd Lloegr, Gogledd Iwerddon, a dyfroedd alltraeth y DU, ond rydym wedi ceisio osgoi dyblygu gymaint â phosibl. **Mae'r papur ymgynghori ar wefan CNC yn cynnwys manylion llawn am sut i ymateb a ble i anfon eich ymateb. Sylwch <u>nad</u> oes angen ymateb i CNC yn ogystal â'r JNCC ynghylch unrhyw un o'r safleoedd uchod, oherwydd bydd y ddau sefydliad yn cydweithio'n agos, a chydag asiantaethau cadwraeth statudol eraill y DU, i adolygu ymatebion yr ymgynghoriad a pharatoi ein hadroddiadau i'r Llywodraeth**.

Os hoffech gopïau papur o unrhyw rai o'r dogfennau ymgynghori ar ein gwefan, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cychwynnol ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch 0300 065 3000. Hefyd mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddfa CNC leol.

Mae'n rhaid i ymatebion i'r ymgynghoriad fod yn ysgrifenedig, a gallant fod yn Gymraeg neu Saesneg. Y ffordd orau i ymateb yw trwy ddefnyddion ein ffurflen ymateb ar-lein syml (gan ddilyn y ddolen o dudalen yr ymgynghoriad ar ein gwefan) Mae'r ffurflen ar-lein yn caniatáu i chi ddarparu ymateb cryno, neu ymateb yn fanwl i gwestiynau'r ymgynghoriad, gan gynnwys atodi dogfennau ychwanegol os bydd angen. Os na allwch ymateb arlein, gallwch ymateb trwy e-bost neu trwy lythyr i'r cyfeiriad ar frig y llythyr hwn.


Mae'n rhaid derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn hanner nos **Ebrill 2016 ar yr hwyraf**, y dyddiad pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben.

**Er budd tryloywder a gweithredu agored, sylwch y gall <u>pob</u> ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynghyd ag enwau'r <u>holl</u> ymatebwyr (ond nid eu cyfeiriadau neu unrhyw wybodaeth bersonol arall) fod ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd ar gais, ac efallai gael eu cyhoeddi, yn rhannol neu'n llawn, gan gynnwys ar wefan CNC a/neu wefan**


**JNCC. Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Os na dymunwch i'ch enw na'ch barn ar y cynigion ACA neu AGA hyn fod yn gyhoeddus, cynghorir chi i beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Wrth ymateb, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol am eich hun neu bobl eraill yng nghorff eich sylwadau.**

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir



Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio


Lleoliad safleoedd ACA ac AGA arfaethedig Ionawr 2016
Location of proposed SACs and SPAs January 2016
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
A
1
2
B
3
C
12 nm
12 nm
12 nm
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig
Potential Special Protection Areas
1 Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn
2 Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion
3 Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Benfro
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan ystyriaeth
Possible Special Areas of Conservation
A North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol
B West Wales Marine / Cymru Gollewin Forol
C Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren
0 10 20 40
Nm
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100019741
© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100019741

Tud. 20



